

Y pethau wnaethon ni o 2021 i 2022

Adroddiad am waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Adroddiad Blynyddol 2021-22'

Medi 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon.



Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: cenedlaethaurdyfodol.cymru

E-bost: cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

Twitter: [@futuregencymru](https://twitter.com/futuregencymru)



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, [cliciwch yma](#).

Cynnwys

Tudalen

Ynglŷn â'm swydd.....	4
Beth sy'n newid?.....	6
Beth ddigwyddodd o 2021 i 2022.....	7
Gwaith sy'n cael ei wneud gan gyrff cyhoeddus.....	9
Beth y bydda i'n ei wneud o 2022 i 2023.....	10
Geiriau anodd.....	12

Ynglŷn â'm swydd



Fy enw i yw **Sophie Howe**. Fi yw **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**.



Mae **enedlaethau'r dyfodol** yn meddwl y bobl fydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol. Nid ydyn nhw wedi cael eu geni eto.



Fy ngwaith i yw gwneud yn siŵr ein bod yn meddwl sut y gallai'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud nawr effeithio ar bobl yn y dyfodol.




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydw i'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a **chyrff cyhoeddus**.



Mae **cyrff cyhoeddus** yn fudiadau sy'n rhedeg gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, y GIG a chynghorau lleol.



Rydw i'n gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio tuag at gyflawni'r nodau yn y Ddeddf sy'n cael ei galw'n **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**.

Byddwn yn galw hyn yn y **Ddeddf** yn y ddogfen hon.

Rydw i'n helpu Llywodraeth Cymru a **chyrff cyhoeddus** trwy:



- roi cyngor



- edrych ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan **gyrff cyhoeddus**




- dweud wrthy'n nhw beth rydw i'n feddwl y dylen nhw wneud nesaf.



Fy ngwaith i yw eu helpu i feddwl am lesiant Cymru. Ac i feddwl am ddyfodol Cymru. Er enghraifft, sut gallwn ni wneud yn siŵr bod Cymru yn lle gwell i fyw ynddo. Nawr ac yn y dyfodol.

Beth sy'n newid?



Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynlluniau ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae hyn yn cael ei galw'n eu **Rhaglen Lywodraethu**.



Rydw i'n meddwl bod y cynlluniau hyn yn dilyn y **Ddeddf** mewn llawer o ffyrdd.



Ac mae **cyrff cyhoeddus** yn gwneud llawer o waith da i wneud yn siwr eu bod yn dilyn y **Ddeddf**.



Hefyd mae busnesau yng Nghymru wedi bod yn meddwl mwy am lesiant.



A bod yn fwy **cynaliadwy**.

Mae **cynaliadwy** yn meddwl y gall rhywbeth ddal i fynd.

Beth ddigwyddodd o 2021 i 2022

Dyma rai o'r pethau y gwnes i a'm tîm eu cyflawni o 2021 i 2022:



- Gwrandawodd Llywodraeth Cymru ar lawer o'r pethau ddywedais i am eu cynlluniau yn eu **Rhaglen Lywodraethu**.



- Cefais ddweud fy marn am lawer o gynlluniau newydd ar gyfer Cymru. Er enghraifft, gweithio oriau byrrach. A gofalu am y blaned.



- Fe gefnogon ni 32 o bobl ifainc yn ein Hacademi sy'n cael ei alw'n **Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol**. Mae hyn er mwyn helpu i ddatblygu arweinwyr y dyfodol.



- Fe gefnogais i'r **Cenhedloedd Unedig** a rhai gwledydd o amgylch y byd i gychwyn adrannau fel fy un i – i ofalu am genhedloedd y dyfodol.



- Fe roddais hyfforddiant ynglŷn â'r **Ddeddf**. Ac ynglŷn â gweithio mewn ffordd **gynaliadwy**.



- Fe wnes i fy ngweithwyr yn fwy **amrywiaethol**.

Mae **amrywiaethol** yn meddwl cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd.



- Fe roddon ni gynnig ar weithio llai o oriau. Ac mewn adeiladau llai.



- Fe weithiais i gyda llawer o sefydliadau eraill.



- Fe edrychais i beth sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ers ein hadroddiad diwethaf.

Gwaith sy'n cael ei wneud gan gyrff cyhoeddus

Rhai enghreifftiau o waith da sy'n cael ei wneud gan **gyrff cyhoeddus** yw:



- **Mae Cyngor Caerdydd** yn gwneud gwaith i wneud yr aer yn lanach.



- **Rhoddodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** gyfle i bobl gael dweud eu barn am eu cynlluniau.



- **Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** wedi edrych ar eu tir a'u hadeiladau a sut i'w defnyddio yn dda.



- **Cafodd Amgueddfa Cymru** fwy o bobl ifainc i gymryd rhan mewn llawer o'u gwaith.



- **Gweithiodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** gyda Choed Cadw i blannu wyth mil o goed.

Beth y bydda i'n ei wneud o 2022 i 2023



Hon fydd fy mlwyddyn olaf fel **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**.



Mae arna i eisiau gwneud yn siŵr bod y **Ddeddf** yn dal i gael ei defnyddio yng Nghymru.

I wneud hyn byddaf yn:



- dal i siarad am y materion y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn eu hwynebu. A helpu i wneud gwahaniaeth.



- cefnogi cyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r **Ddeddf**.



- gwneud beth rydw i'n dweud y bydda i'n ei wneud a gosod esiampl dda o weithredu'r **Ddeddf**.



- gwneud yn siŵr bod gan fy swyddfa yr hyn sydd ei hangen arni i redeg yn dda.

Geiriau anodd

Amrywiaethol

Mae hyn yn meddwl cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd.

Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae hyn yn meddwl y bobl fydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol. Nid ydyn nhw wedi cael eu geni eto.

Cynaliadwy

Mae hyn yn meddwl y gall rhywbeth ddal i fynd.

Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn fudiadau sy'n rhedeg gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, y GIG a chynghorau lleol.